# Cynnig ymgynghori i sefydlu

# FFEDERASIWN A ARWEINIR GAN GORFF LLYWODRAETHU

## Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt (Bishopston)

## ac

## Ysgol Gynradd Llan-y-tair-mair (Knelston)



# Ffederasiwn Ysgolion Cynradd y Penrhyn

**CYNNIG YMGYNGHORI I SEFYDLU FFEDERASIWN**

**TUDALEN GYNNWYS** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Beth yw Ffederasiwn? | 1 |
| Pa ysgolion fydd yn rhan o'r Ffederasiwn? | 2 |
| Pam yr ydym yn cynnig ffedereiddio? | 2 |
| Beth yw prif agweddau Ffederasiwn? | 2 |
| Y cefndir i'r cynnig hwn | 3 |
| Y weledigaeth ar gyfer y Ffederasiwn | 3 |
| Manteision Ffederasiwn | 4 |
| Trefniadau derbyn disgyblion | 5 |
| Trefniadau llywodraethu | 6 |
| Trefniadau arwain | 6 |
| Y broses ffedereiddio | 7 |
| Cyfle i chi fynegi eich barn | 8 |
| Cwestiynau cyffredin | 9 |




## BETH YW FFEDERASIWN?

Cytundeb ffurfiol a chyfreithiol yw Ffederasiwn, sy'n golygu bod yr ysgolion dan sylw'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol. Ceir un Corff Llywodraethu, sy'n goruchwylio'n strategol bob un o'r ysgolion sydd yn y Ffederasiwn. Nid proses uno mohoni; bydd pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a'i staff ei hun.

## PA YSGOLION FYDD YN RHAN O’R FFEDERASIWN?



Mae Cyrff Llywodraethu **Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt** ac **Ysgol Gynradd Llan-y-tair-mair** wedi cyfarfod ac wedi cytuno i ymgynghori ynghylch cynnig i ffedereiddio. Mae Cyngor Abertawe wedi rhoi arweiniad i’r Cyrff Llywodraethu ynghylch y cynnig hwn a arweinir gan lywodraethwyr. Diben y cynnig hwn yw sefydlu ffederasiwn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol dan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (Offeryn Statudol Cymru 2014 Rhif 1132) o 1 Ebrill 2024 ymlaen neu cyn gynted ag sy’n bosibl gan ddilyn gweithdrefnau.

## PAM YR YDYM YN CYNNIG FFEDEREIDDIO?

Gwelwyd newidiadau niferus ym maes addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi herio cymunedau ysgolion i feddwl yn fwy creadigol er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gynnal y profiad addysgol gorau posibl ar gyfer pob un o’n plant. Mae Ysgolion Cynradd Llandeilo Ferwallt a Llan-y-tair-mair wedi bod yn cydweithio’n agos â’i gilydd yn llwyddiannus yn yr un clwstwr ers tipyn o amser, ac mae Cyrff Llywodraethu’r ddwy ysgol wedi bod yn monitro llwyddiant y cydweithio hwnnw. Yn rhan o’n hymrwymiad parhaus i barhau i wella ysgolion, rydym yn cynnig atgyfnerthu’r cydweithio hwn a chyfoethogi’r profiadau dysgu cyffredin ar gyfer disgyblion ar draws y ddwy ysgol.

- Y gallu i rannu arfer gorau, ethos ysgol gyfan ac athroniaeth a rennir.
- Mwy o allu i addasu er mwyn diwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anghenion lluosog.
- Un gyfres o bolisïau a gweithdrefnau.
- Dim ond un Corff Llywodraethu y byddai ei angen ar yr ysgolion.
- Mwy o gyfleoedd i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i staff.

## BETH YW PRIF AGWEDDAU FFEDERASIWN?

- Byddai Cyrff Llywodraethu presennol y ddwy ysgol yn cael eu diddymu pe bai’r cynnig i sefydlu Ffederasiwn yn mynd yn ei flaen – ar ôl ymgynghori yn ei gylch. Byddai un Corff Llywodraethu newydd yn cymryd lle’r Cyrff Llywodraethu unigol, a’r corff hwnnw fyddai’n gyfrifol am oruchwylio’n strategol y ddwy ysgol a fyddai’n rhan o’r Ffederasiwn.
- Ni fyddai’r ddwy ysgol yn uno. Byddai pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a’i staff ei hun. Pe bai’r ysgolion yn cael eu ffedereiddio, byddai’r ysgolion wedyn yn gallu archwilio manteision rhannu adnoddau.
- Byddai pob ysgol yn dal i gael ei harolwg Estyn ei hun, er y byddai modd cydlynu’r arolygiadau fel eu bod yn digwydd ar yr un pryd.
- Byddai pob ysgol yn elwa o gryfder y Ffederasiwn, ond byddai’n dal i gadw ei hunaniaeth unigryw ei hun, ei henw, ei gwisg, ac ati.

# Ffederasiwn Ysgolion Cynradd y Penrhyn



## Y CEFNDIR I'R CYNNIG HWN

Mae'r ddwy ysgol yn ne Gŵyr ac maent wedi bod yn cydweithio'n llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd yn rhan o glwstwr Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt o ysgolion partner.

Yn hanesyddol, mae'r ddwy ysgol wedi bod yn cydweithio'n agos â'i gilydd i rannu diwrnodau hyfforddiant, ac yn cydweithio i rannu arfer da. Ers i'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael ei ddatblygu, mae'r bartneriaeth hon wedi dod yn agosach wrth i'r ysgolion gydweithio â'i gilydd i ddatblygu agweddau ar y cwricwlwm, sy'n cynnwys cael gweledigaeth a rennir. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r ddwy ysgol wedi gweld manteision cydweithio, wrth i safonau wella ac wrth i gyfleoedd godi i rannu arfer gorau ar draws y ddwy ysgol.

Mae'r weledigaeth hon a rennir ac ethos y cwricwlwm newydd yn hanfodol i'r ddwy ysgol ac yn hollbwysig o safbwynt sicrhau bod profiadau ein dysgwyr yn allweddol i gyflawni'r pedwar diben. Mae ein cwricwla yn eang ac yn gytbwys, ac yn pwysleisio cynwysoldeb i ddysgwyr o bob oed a phob gallu. Mae'r ddwy ysgol yn cynllunio darpariaeth amrywiol dan do ac yn yr awyr agored er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud cynnydd, gan fodloni gofynion gorfodol a hybu sgiliau trawsgwricwlaidd yn unol â'r cwricwlwm ar yr un pryd.

## Y WELEDIGAETH AR GYFER Y FFEDERASIWN

Wrth baratoi ar gyfer y broses hon, mae'r ddwy ysgol wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion sylfaenol:

- Sefydlu a chynnal tîm arwain cryf ac effeithiol a fyddai'n darparu ffocws clir, cyfeiriad a safonau uchel ar draws y ddwy ysgol.
- Gwella a chyfoethogi cyfleoedd addysgol a chodi safonau ar gyfer plant gan eu helpu i symud ymlaen i'r dyfodol yn hyderus ac yn llwyddiannus, drwy gydweithio'n agos â'i gilydd ac adeiladu ar eu cryfderau presennol.
- Datblygu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd ar draws y staff i gyd, drwy rannu arferion proffesiynol yr holl staff sy'n gweithio yn y ddwy ysgol.
- Parhau i sicrhau pwysigrwydd sylfaenol y ddwy ysgol gynradd yn eu cymunedau lleol, o ran y rôl hanfodol y maent yn ei chyflawni a'r gwerth ychwanegol y maent yn ei gynnig ar wahân i ddarparu addysg.
- Cael y cyfle i weithio gyda'i gilydd dan un Corff Llywodraethu ac un Pennaeth, ond gan gynnal y gallu i bob ysgol unigol gadw ei llais ei hun a phenderfynu ynglŷn â'i dyfodol ei hun.

## MANTEISION I'R DISGYBLION

Ffocws y Ffederasiwn fyddai'r disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol. Dyma rai o'r manteision iddyn nhw:

- Cysondeb addysgu a dysgu da a rhagorol ar draws y ddwy ysgol yn cael eu sicrhau.
- Ystod ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol yn cael ei darparu.
- Cyfleoedd cymdeithasol gwell yn cael eu cynnig.
- Y gwaith o baratoi'r disgyblion ar gyfer pontio i Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt yn gwella.



## MANTEISION I'R STAFF

Yr aelodau o staff yw ased mwyaf gwerthfawr y Ffederasiwn, a dyma rai o'r manteision iddyn nhw:

- Ei gwneud yn bosibl rhannu arbenigedd ac arferion rhwng y ddwy ysgol.
- Rhannu adnoddau addysgu, syniadau a pholisïau.
- Darparu ystod ehangach o gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol a hyfforddiant.
- Bod yn opsiwn mwy deniadol o safbwynt recriwtio staff newydd.



## MANTEISION I'R GYMUNED EHANGACH

- Byddai'r Ffederasiwn yn sicrhau proffil uwch i'r ddwy ysgol yng nghymuned leol Gŵyr, ar draws Abertawe ac yng Nghymru.
- Byddai'r Ffederasiwn yn datblygu i fod yn ganolfan ragoriaeth ddeinamig ac arloesol o ran addysgu a dysgu, a byddai'n gwasanaethu dwy gymuned ysgol leol gyfagos.
- Byddai'r Ffederasiwn mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.



## TREFNIADAU DERBYN DISGYBLION

Byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu fel ysgolion ar wahân a byddai ganddynt eu meini prawf eu hunain ar gyfer derbyn disgyblion, fel y nodir yn eu polisïau derbyn. Byddai'r rhieni yn parhau i wneud cais am leoedd drwy system dderbyn Cyngor Abertawe, ac yn dewis yr ysgol y maent yn ei ffafrio. Byddai pob plentyn yn parhau i fod wedi'i gofrestru yn ei ysgol unigol o fewn y Ffederasiwn.



## TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Dyma'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer pob ysgol:

| **Categori Llywodraethwyr** | **Llandeilo Ferwallt** | **Llan-y-tair-mair** |
|---|---|---|
| Rhiant | 5 | 4 |
| Cymunedol | 4 | 3 |
| Awdurdod Lleol | 4 | 3 |
| Cyngor Cymuned | 1 | 1 |
| Pennaeth | 1 | 1 |
| Staff Addysgu | 2 | 1 |
| Staff Cymorth | 1 | 1 |
| Clerc | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **15** |

Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu'r model Llywodraethu a ragnodir yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014. Byddai maint a strwythur y Corff Llywodraethu newydd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Rhiant-lywodraethwyr | 4 | 2 o bob ysgol |
| Athro-lywodraethwyr | 2 | 1 o bob ysgol |
| Staff-lywodraethwyr | 2 | 1 o bob ysgol |
| Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol | 4 | Yr uchafswm a ganiateir |
| Llywodraethwyr cymunedol | 4 | Yr uchafswm a ganiateir |
| Llywodraethwr o Gyngor Cymuned | 1 | Yr uchafswm a ganiateir |
| Pennaeth | 1 | Yr uchafswm a ganiateir |
| **Cyfanswm** | **18** | |

## TREFNIADAU ARWAIN



Byddai'r Corff Llywodraethu wedi'i ffedereiddio yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer y ddwy ysgol.

Pe bai'r cynnig hwn i ffedereiddio'n mynd yn ei flaen, byddai angen i'r Corff Llywodraethu newydd gytuno ar y trefniadau arwain newydd ar gyfer y Ffederasiwn, a allai gynnwys cael Pennaeth a Rennir sy'n arwain y ddwy ysgol, gyda chymorth Dirprwy Bennaeth. Byddai'r Corff Llywodraethu wedi'i ffedereiddio yn gyfrifol am reoli perfformiad y Pennaeth a Rennir. Yna, byddai'r Corff Llywodraethu wedi'i ffedereiddio a'r Pennaeth a Rennir yn cytuno ar yr uwch dimau arwain yn y ddwy ysgol, yn eu datblygu ac yn eu ffurfioli, er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn cynorthwyo'r Pennaeth a Rennir.

# Y BROSES FFEDEREIDDIO

Mae'n rhaid dilyn camau penodol i sefydlu Ffederasiwn:

### CAM 1: ARCHWILIO'R POTENSIAL I FFEDEREIDDIO

- Cael cytundeb rhwng dau Gorff Llywodraethu'r ysgolion, a'r Awdurdod Lleol, eu bod am archwilio opsiynau'n ymwneud â ffedereiddio.
- Cyd-greu cynnig ffurfiol er mwyn ymgynghori â'r holl randdeiliaid yn ei gylch.
- Rhannu gwybodaeth am y broses ac am gynnydd â staff y ddwy ysgol ac unrhyw randdeiliaid allweddol.
- Pennu dyddiad posibl pan fyddai'r ffedereiddio a gynigir yn digwydd.

### CAM 2: PARATOI'R CYNNIG YMGYNGHORI

- Y Cyrff Llywodraethu yn llunio fersiwn derfynol o'r cynnig gyda chymorth yr Awdurdod Lleol.
- Y cynnig yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori yn ei gylch â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y disgyblion, y staff, y rhieni, y gymuned leol a'r gymuned ehangach.
- Mae angen i'r cynnig gynnwys y canlynol: - Y rhesymau dros ffedereiddio a manteision ffedereiddio – Maint a chyfansoddiad y Corff Llywodraethu sengl – Y trefniadau o ran staff uwch – Y trefniadau derbyn disgyblion – Y dyddiad cau ar gyfer rhoi sylwadau – Y dyddiad pan allai'r ffedereiddio ddigwydd – Y trefniadau ymgynghori.

### CAM 3: AR ÔL I'R CYFNOD YMGYNGHORI DDOD I BEN

- Mae'r Cyrff Llywodraethu yn cwrdd i ystyried yr ymatebion o'r broses ymgynghori.
- Adroddiad cryno'n cael ei lunio ar gyfer pob Corff Llywodraethu i'w ystyried.

### CAM 4: PENDERFYNU A GWEITHREDU

- Mae'r Cyrff Llywodraethu yn cwrdd i benderfynu'n derfynol a ddylid bwrw ymlaen â'r broses ffedereiddio neu beidio.
- Y rhanddeiliaid yn cael gwybod am y penderfyniad.
- Os yn berthnasol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Cyrff Llywodraethu i ffurfio Corff Llywodraethu sengl newydd a phenodi Llywodraethwyr iddo.
- Penodi Pennaeth.

### CAM 5: DATBLYGU

- Mae'r Corff Llywodraethu newydd yn cwrdd i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Ffederasiwn.
- Caiff unrhyw strwythurau newydd o ran Is-bwyllgorau eu hystyried a'u ffurfio os oes angen.
- Yr uwch dimau arwain yn cael eu cadarnhau.
- Systemau, polisïau ac arferion yn cael eu hadolygu.

### CAM 6: SYMUD YMLAEN

- Unrhyw bolisïau, arferion a systemau newydd yn cael eu sefydlu.
- Rhoi gweithdrefnau monitro a gwerthuso ar waith.

## CYFLE I CHI FYNEGI EICH BARN

Byddai'r Cyrff Llywodraethu yn hoffi clywed barn cymaint o randdeiliaid ag sy'n bosibl yn ystod y broses ymgynghori. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn helpu i lywio penderfyniad terfynol am y cynnig i ffedereiddio. Os hoffech roi sylwadau ar y cynnig hwn, gallwch wneud hynny drwy lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein. Cliciwch ar y ddolen gyswllt isod neu sganiwch y cod QR.

https://forms.office.com/e/N44DZagfUk

Neu sganiwch y cod QR:

Os hoffech gopi papur o'r ddogfen a'r ffurflen ymateb, mae croeso i chi gysylltu â:

Hughes-MorganR5@Hwbcymru.net

Edrychwn ymlaen at gael eich barn am y cynnig hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer rhoi sylwadau yw **31 Rhagfyr 2023.**

### Bydd sesiynau briffio ar gyfer staff pob ysgol yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

| Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | Ysgol Gynradd Llan-y-tair-mair |
|---|---|
| Am 3.30pm ddydd Llun 20 Tachwedd 2023 | Am 3.45pm ddydd Mawrth 21 Tachwedd 2023 |

Bydd cyfarfod ar y cyd o Gyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol yn cael ei gynnal ddydd Mercher 31 Ionawr i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r broses ffedereiddio neu beidio.